Cyngor Cymuned **BRYNCRUG** Community Council
4 Cae Ffynnon, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3EE
☎ 07840 956 056 ✉ clerc@cyngor-bryncrug-council.org.uk

15.03.2020

Luned Jones
Archwiliwr Mewnol
Adran Gyllid
Cyngor Gwynedd
Pencadlys
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Luned,

**PENODI ARCHWILIWR MEWNOL I GYNGOR CYMUNED BRYNCRUG**

Hoffwn gadarnhau eich penodiad fel Archwilydd Mewnol i'r Cygor. Nodir isod delerau eich ymrwymiad. Os byddwch yn cytuno, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn llofnodi a dychwelyd un copi ar gyfer fy nghofnodion.

**1. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU**

Y Cyngor:

1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei rheolaeth ariannol yn ddigonol ac yn effeithiol a bod ganddo system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso gweithrediad ei swyddogaethau'n effeithiol gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheolaeth risg.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifyddol yn fewnol a'i system rheolaeth fewnol yn unol â'r arferion priodol mewn perthynas â rheolaeth fewnol fel a nodir yng ngyhoeddiad y Grŵp Cynghori Cyd-ymarferwyr (Joint Practitioners Advisory Group): 'Governance and Accountability for Local Councils: A Practitioner's Guide' atodlen sydd ynghlwm o wiriadau archwilio a gynhyrchwyd gan Un Llais Cymru..

Yr Archwilydd Mewnol:

1.3 Mae'r Archwilydd Mewnol yn gyfrifol am adolygu a yw rheoli ariannol y Cyngor yn ddigonol ac yn effeithiol, a bod ganddo system gadarn o reolaeth fewnol. Bydd yr Archwilydd Mewnol yn cysylltu â'r Clerc i'r Cyngor ar yr holl ddyletswyddau, a bydd yn adrodd i Bwyllgor Cyllid y Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn

## 2. ARCHWILIAD CYNLLUNIO

2.1 Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun archwilio strategol sy'n cwmpasu'r prif systemau ariannol a llywodraethu ac mae hyn yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae canllawiau pellach, gan gynnwys disgrifiad o lefel sylfaenol o archwilio, yn cael ei nodi yn y cyhoeddiad 'Practitioner's Guide'. Mae copi o'r Cynllun Archwilio ynghlwm hefyd.

2.2 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn cynnal yr archwiliad er mwyn galluogi iddo / iddi roi sicrwydd i aelodau a swyddogion, ac i'w alluogi ef / hi i lenwi a llofnodi Adran 4 y Ffurflen Flynyddol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor a'r archwilydd allanol .

2.3 Bydd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn cael ei benderfynu yn flynyddol rhwng y Clerc a'r Archwilydd Mewnol cyn i'r gwaith gychwyn, ond bydd yn seiliedig i raddau helaeth ar y Cynllun Archwilio amgaeedig.

## 3. GOFYNION ADRODD

3.1 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn adrodd i Bwyllgor Polisi a Chyllid y Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn, gan nodi canlyniadau'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y deuddeg mis blaenorol. Mewn achos lle bydd mater difrifol yn dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, gall yr Archwiliwr Mewnol adrodd i'r Pwyllgor ar adegau eraill.

3.2 Yn ystod y flwyddyn, bydd yr Archwilydd Mewnol yn rhoi gwybod am y canlyniadau dros dro o'i waith i'r Clerc pan fydd yn ystyried hynny yn briodol.

3.3 Er mwyn galluogi'r Archwiliwr Mewnol i lenwi Adran 4 y Ffurflen Flynyddol yn llawn, bydd ef / hi yn ymgymryd â gwaith yn ymwneud â diwedd y flwyddyn ym mis Ebrill / Mai. Bydd canlyniadau gwaith o'r fath yn cael ei adrodd ar yr un pryd a chyflwyno'r Fantolen Flynyddol i'r Cyngor.

## 4. ANNIBYNIAETH A CHYMHWYSTER

4.1 Mae'n hanfodol bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn ddigon annibynnol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol eraill y Cyngor.

4.2 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn rhoi gwybod i'r Clerc ar unwaith os bydd ef / hi yn dod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau a allai gael effaith andwyol ar ei allu / gallu i ymgymryd â'r archwiliad yn wrthrychol ac yn annibynnol.

4.3 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn cynnal yr archwiliad mewnol yn gymwys ac yn unol ag arferion priodol mewn ffordd a fydd yn diwallu anghenion busnes y Cyngor. Os bydd yr Archwilydd Mewnol yn dod yn ymwybodol o faterion a allai effeithio ar ei g / cymhwysedd, bydd ef / hi yn hysbysu'r Clerc neu'r Cadeirydd ar unwaith.

## 5. MYNEDIAD I WYBODAETH, AELODAU A SWYDDOGION

5.1 Bydd gan yr Archwilydd Mewnol hawl mynediad yn ystod yr archwiliad i gyfrifon, talebau, gohebiaeth, systemau cyfrifyddol, cofnodion cyfarfodydd a chofnodion neu ddogfennau eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal yr archwiliad.

5.2 Bydd gan yr Archwilydd Mewnol hawl mynediad at unrhyw aelod neu swyddog i drafod ac i dderbyn gwybodaeth ac esboniadau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi o'r archwiliad.

**6. CYFNOD O YMRWYMIAD**

6.1 Mae'r Archwilydd Mewnol yn cael ei benodi am gyfnod amhenodol, ond yn amodol ar gadarnhad blynyddol gan y Cyngor.

**7. CYDNABYDDIAETH**

7.1 Mae cytundeb rhwng yr Archwilydd Mewnol a'r Cyngor y bydd y ffi yn seiliedig ar tua 0.75 diwrnod o waith yn ystod pob blwyddyn ariannol ar gyfradd o £200.00 y dydd gan gynnwys yr holl gostau (er y bydd costau teithio yr archwilydd o 45c y filltir o Gaernarfon hefyd yn daladwy.)

7.2 Mae'r gyfradd hon yn sefydlog am gyfnod y contract. Fel arfer, bydd y taliad yn cael ei wneud drwy anfoneb, yn seiliedig ar faint y gwaith a gwblhawyd.

7.3 Os digwydd bod angen gwaith ychwanegol â thâl, bydd y telerau hyn yn cael eu cytuno rhwng y Clerc a'r Archwilydd Mewnol cyn y dyletswydd ar yr un gyfradd ddyddiol ag uchod, a bydd anfoneb ar wahân i'r gwaith ychwanegol hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir

B Gwilym

Bedwyr Gwilym
**Clerc**

Yr wyf yn derbyn fy mhenodiad fel Archwilydd Mewnol i Gyngor Cymuned Bryncrug (blwyddyn ariannol 2019/2020).

Llofnod: ....Luned F Jones....... Dyddiad: ....17.03.2020.......

Enw: .............. Luned F. Jones ................................................

## CYNGOR CYMUNED BRYNCRUG - CYNLLUN ARCHWILIO 2019/2020

Mae'r Cynllun Archwilio yn nodi'r cerrig milltir allweddol mewn mhrosesau mewnol ac archwilio'r Cyngor. Mae pob dyddiad yn fras amcan.

Mae Archwilydd Mewnol y Cyngor yn cael ei benodi bob blwyddyn yn y Cyngor Blynyddol (Mai). Yr archwilydd mewnol presennol yw Luned F. Jones CPFA.

Archwilydd Cyffredinol Cymru fydd yr archwilydd (allanol) statudol. BDO yw'r archwilydd a benodwyd ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Yr enw cyswllt ar gyfer y cwmni yw Mrs Emma Prince.

| | **Archwiliad mewnol** | **Archwiliad allanol** |
|---|---|---|
| **Ionawr** | Clerc ac Archwilydd Mewnol yn cytuno dyddiad a chwmpas Archwiliad Interim. | |
| **Mawrth** | "Archwiliad Interim"<br><br>Archwiliad neu ymweliadau i adolygu system y Cyngor ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol.<br><br>Systemau i'w gwirio yn cynnwys:<br><br>• Gweithredu unrhyw argymhellion o archwiliad y flwyddyn flaenorol.<br>• Asesiadau Risg a wnaed.<br>• Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol & Rheolau Sefydlog Contract ar waith.<br>• Contractau cyflogaeth<br>• Llofnodwyr<br>• Derbynebau, taliadau a TAW<br>• Rheoli Dyled.<br>• Gosod y Gyllideb.<br>• Cydymffurfio â gweithdrefnau statudol.<br>• Unrhyw faterion ychwanegol a nodir gan y Cyngor, Archwilydd Mewnol neu Archwilydd Allanol.<br>• Cytuno ar ddyddiad ar gyfer Archwilio'r Cyfrifon | |
| **Ebrill** | Cau Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ebrill / Mai** | Gwaith ar safle i archwilio cyfrifon a chymeradwyo Mantolen Flynyddol | |
| **Mehefin** | Adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad ac Argymhellion i Bwyllgor Cyllid | **Erbyn 30 Mehefin** (a chyn yr archwiliad allanol)<br>• Swyddog Ariannol Cyfrifol i lofnodi tystysgrif a dyddiad<br>• Archwilydd Mewnol i lofnodi & dyddio<br>• Adolygiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor, Cadeirydd a'r Clerc i lofnodi.<br><br>Sylwer,mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyfleoedd i etholwyr archwilio dogfennau, yn unol â'r dyddiadau a osodwyd gan BDO. |
| **Gorffennaf** | | Archwilydd yn cynnal gwaith archwilio. |
| **Medi** | | Yn dilyn yr archwiliad **(ac erbyn 30 Medi)**<br>• Swyddog Ariannol Cyfrifol yn cwblhau ac arwyddo Adran 3<br>• Cyngor yn cymeradwyo'r Adolygiad Blynyddol, Cadeirydd a'r Clerc i lofnodi<br>• Adolygiad Blynyddol yn cael ei anfon at BDO ar gyfer cyhoeddiad ffurfiol y tystysgrif ac adroddiad archwilio.<br><br>Sylwer, hefyd yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyfleoedd etholwyr archwilio dogfennau, yn unol â dyddiadau a osodwyd gan BDO. |